| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd** |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | **30 Tachwedd 2021** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr Adroddiad: Llesol** | **Prif Beiriannydd - Diogelwch ar y Ffyrdd a Theithio** |
| **Teitl:** | **Gorchymyn 202 Cyngor Sir Ddinbych (Bwlch yr Oernant, Llandegla) (Cyfyngiad Cyflymder 40mya)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y gwrthwynebiadau a gafwyd mewn perthynas â'r Gorchymyn Traffig arfaethedig uchod.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ceisio penderfyniad i wrthod y gwrthwynebiadau a ddaeth i law am y Gorchymyn Traffig arfaethedig.

2.2 Yn unol â Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996, mae angen i'r Cyngor (fel yr 'awdurdod sy'n gyfrifol am y gorchymyn' ystyried yr holl wrthwynebiadau a gafwyd. Mae'r swyddogion wedi trafod y gwrthwynebiadau a gafwyd gyda'r aelodau ward lleol a'r Heddlu. O ganlyniad i hyn, y bwriad yw gwrthod y gwrthwynebiadau a pharhau gyda'r Gorchymyn Traffig. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae angen i Aelod Arweiniol wneud Penderfyniad Dirprwyedig er mwyn gwrthod y gwrthwynebiadau fel y gellir parhau â'r Gorchymyn Traffig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gweithredu'r Gorchymyn Traffig arfaethedig gan fod y Cynghorwyr Melvin Miles, Graham Timms, Martyn Holland a Heddlu Gogledd Cymru yn cytuno â'r cynnig.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) Gylchlythyr 24/2009 'Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru' ym mis Hydref 2009. Roedd y ddogfen hon yn golygu bod angen i awdurdodau priffyrdd lleol yng Nghymru adolygu, argymell a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i derfynau cyflymder ar bob ffordd dosbarth A a B, yn unol â'r canllawiau newydd.

4.2 Comisiynodd y Cyngor ymgynghorydd annibynnol, AECOM, i gynnal adolygiad o'r terfynau cyflymder ar bob ffordd dosbarth A a B yn y sir gan ddefnyddio Cylchlythyr 24/2009 fel canllaw. Cafodd cyfanswm o 174 cilomedr o ffyrdd eu hystyried, yn cynnwys 87.5 cilomedr o ffyrdd dosbarth A ac 86.5 cilomedr o ffyrdd dosbarth B.

4.3 Yn ystod y broses o adolygu bob ffordd, cafodd y ffactorau a ganlyn i gyd, neu rai ohonynt, eu hystyried:

- Effaith a ragwelwyd ar gyfraddau damweiniau ac argyfyngau;
- Llif traffig ac allyriadau cerbydau;
- Amser teithio traffig modur;
- Dibynadwyedd amseroedd teithio;
- Lefel pryder y cyhoedd;
- Lefel gwahanu cymunedol gan draffig sy’n symud yn sydyn;
- Amodau a chyfleusterau ar gyfer defnyddwyr ffyrdd diamddiffyn;
- Y gost sy’n gysylltiedig â pheirianneg neu fesurau corfforol eraill, gan gynnwys cynnal a chadw;
- Cost ac effeithiau gweledol arwyddion ac effaith amgylcheddol posib mesurau peirianyddol neu fesurau corfforol eraill;
  engineering or other physical measures;
- Cost a rhwyddineb gorfodaeth.

4.4 Nodwyd cyfanswm o 15 ffordd lle roedd angen gostwng y terfyn cyflymder cyfredol, ac mae’r terfynau cyflymder hyn wedi cael eu gweithredu’n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn amodol ar yr arian oedd ar gael i wneud y gwaith.

4.5 Nododd yr adolygiad y dylid diwygio’r terfyn cyflymder ar yr A542 rhwng ei chyffordd â’r A5104 a’r Britannia Inn, a elwir yn Fwlch yr Oernant o’r Terfyn Cyflymder Cenedlaethol (60mya ar gyfer ffyrdd unffrwd) i derfyn cyflymder o 40mya.

4.6 Cafodd bwriad y Cyngor i gyflwyno'r Gorchymyn Traffig arfaethedig ei hysbysebu drwy hysbysiad cyhoeddus a ymddangosodd yn y wasg leol, ar wefan y Cyngor a’i ddangos mewn amryw fannau ar y darnau o’r ffordd dan sylw am gyfnod o 4 wythnos rhwng 10 Mehefin 2020 ac 8 Gorffennaf 2020. Amgaeir copi o'r hysbysiad cyhoeddus a’r lluniad cysylltiedig yn Atodiadau A a B.

4.7 Cafodd y Cyngor 187 gwrthwynebiad ynglŷn â’r Gorchymyn Traffig arfaethedig yn ymateb i’r hysbysiad cyhoeddus. Gellir gweld manylion y gwrthwynebiadau yn Atodiad C. Mae taflen yn crynhoi’r amrywiol wrthwynebiadau a godwyd, ynghyd â sylwadau’r Awdurdod Priffyrdd lle bo hynny’n briodol yn Atodiad D.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw’r adroddiad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Amcangyfrifir mai’r gost o brosesu a gweithredu’r Gorchymyn Traffig, gan gynnwys yr holl arwyddion angenrheidiol a’r rheolaeth traffig dros dro yw £19,000, heb gynnwys amser staff. Nid yw’n debygol o effeithio ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?**

7.1 Bydd y cynnig yn cynorthwyo i ostwng cyflymder cerbydau ac yn helpu i ostwng nifer y trawiadau sy’n digwydd ar y ffordd, yn enwedig y rheiny sy’n cynnwys defnyddwyr ffyrdd diamddiffyn fel beicwyr modur. Bydd y cynnig yn helpu i leihau llygredd sŵn ac aer sydd wedi effeithio’n negyddol ar breswylwyr lleol yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd y cynnig hefyd yn helpu i wneud yn siŵr bod Cyngor Sir Ddinbych yn bodloni amcanion lles cyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â gostwng carbon, llygredd sŵn a nifer y trawiadau.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Tynnwyd sylw'r Cynghorwyr Melvyn Mile, Graham Timms a Martyn Holland, yn ogystal â Simon Barrasford, Uwcharolygydd Plismona'r Ffyrdd Heddlu Gogledd Cymru at y gwrthwynebiadau drwy neges e-bost. Roedd y negeseuon e-bost hyn yn ceisio eu cytundeb i gyflwyno'r gwrthwynebiadau i chi gydag argymhelliad eu bod yn cael eu gwrthod, gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig yr Aelod Arweiniol.

8.2 Mae'r tri Chynghorydd ac Uwcharolygydd Barrasford wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â gwrthod y gwrthwynebiadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Bydd cost gweithredu'r penderfyniad wedi'i chynnwys o fewn cyllidebau presennol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Os na fydd y penderfyniad dan ddirprwyaeth yn cael ei wneud, ni ellir creu'r Gorchymyn Traffig ac ni fydd y terfyn cyflymder yn cael ei gyflwyno.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996

11.2 Yn unol â phwerau sydd wedi'u dirprwyo i'r Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd yn Atodiad 2(B) yn Adran 13 o Gyfansoddiad y Cyngor.